

Ailgylchu a Gwastraff ar gyfer Digwyddiadau 2023-2024

Diolch am drefnu digwyddiad cyhoeddus yng Nghonwy. Rydym yn gobeithio y bydd eich digwyddiad yn llwyddiant mawr.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'n cynnig gwasanaeth casglu Ailgylchu a Gwastraff Digwyddiadau cynhwysfawr a chystadleol. Mae'r rhestr isod yn dangos beth sydd ar gael i'w archebu. Gallwch ei defnyddio i'ch helpu i lenwi'r Ffurflen Archebu dros y dudalen.

Gwnewch yn siŵr bod gennych ddarpariaeth ailgylchu a gwastraff yn eich digwyddiad.

Biniau/cynwysyddion Ailgylchu:



Bin Ailgylchu Gwyrdd 240L

Ar gael ar gyfer: Papur, Plastig, Gwydr a Chaniau. Bydd angen un bin ar gfer pob eitem rydych am ei ailgylchu.



Bin Bwyd Piws 140L

Byddwch yn cael leinars biodiraddiadwy os byddwch yn archebu'r bin hwn. Peidiwch â defnyddio unrhyw leinars ar wahân i'r rhai a ddarperir.

H: 106cm
W: 49cm
D: 55cm



Cawell Cardbord:

Sicrhewch fod ardal o dir caled os ydych am archebu cawell. Unwaith iddo gael ei osod, ni ellir ei symud.

Biniau/cynwysyddion Gwastraff:



Bin Gwastraff Oren 240L

Ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu yn unig.



Bin Gwastraff 1100L

Ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu yn unig.



Cawell Gwastraff

Ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu yn unig. Sicrhewch fod ardal o dir caled os ydych am archebu cawell. Unwaith iddo gael ei osod, ni ellir ei symud.

MANYLION Y DIGWYDDIAD

Enw'r Digwyddiad	
Cyfeiriad a chôd post y digwyddiad	
Dyddiad y digwyddiad	
Dyddiad darparu (Llun-Gwener yn unig)	
Dyddiad casglu (Llun-Gwener yn unig)	
Dyddiad(au) gwagu ychwanegol os oes angen (Llun-Gwener yn unig)	
Enw i'r anfoneb	
Cyfeiriad a chôd post yr anfoneb	
Enw cyswllt	
Rhif ffôn cyswllt	
Cyfeiriad e-bost cyswllt	

TALIADAU GWASANAETH

Gofynion Gwasanaeth	Cost Gwagu	Nifer Gofynnol	Sawl tro mae angen gwagu
Bin Ailgylchu Bwyd 140L	£6.05		
Bin Ailgylchu Papur 240L	£3.30		
Bin Ailgylchu Plastig 240L	£3.30		
Bin Ailgylchu Gwydr 240L	£3.30		
Bin Ailgylchu Caniau 240L	£3.30		
Cawell Cardbord	£132.00 + TAW		
Bin Gwastraff 240L	£10.45		
Bin Gwastraff 1100L	£30.25		
Cawell Gwastraff	£473.00 + TAW		Amherthnasol

TALIADAU DOSBARTHU A CHASGLU

Nifer o finiau (240L neu 1100L)	Cost	Nifer gofynnol
Darparu a Chasglu 1-6 bin	£110.00 + TAW	
Darparu a Chasglu 7-16 bin	£165.00 + TAW	

This form is also available in English

*POLISI HALOGIAD

Os bydd eitemau ailgylchu anghywir neu gwastraff na ellir ei ailgylchu yn cael eu rhoi yn y biniau/cynwysyddion hyn, caiff ei gyfrif fel **HALOGIAD**.
Bydd angen i ni wagu'r biniau neu gynwysyddion hyn gyda Cherbyd Gwastraff a bydd rhaid i chi dalu am y costau ychwanegol cysylltiedig fel a ganlyn:

Bin Ailgylchu 140L/240L	£12.10 (y bin)
Cawell Cardbord	£110.00 (y cawell)

TELERAU AC AMODAU GWASANAETH

Darllenwch yn ofalus a thiciwch pob bocsi i ddangos eich bod yn cytuno gyda'n telerau ac amodau gwasanaeth.

Yn nhelerau ac amodau'r contract hwn am wasanaethau Ailgylchu a Gwastraff:

- Mae "Llogwr" yn golygu'r cwsmer sy'n sefydlu'r cytundeb hwn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) i logi biniau a chewyll ar gyfer casglu Ailgylchu a Gwastraff. Mae "Cytundeb" yn golygu'r cytundeb hwn, a gwblhawyd rhwng y Llogwr a CBSC. Mae "Cynwysyddion" yn golygu unrhyw finiau, cewyll neu gynwysyddion a ddarperir i'r Llogwr fel a gytunwyd gyda CBSC.
- Rhaid talu anfonebau yn llawn o fewn 28 diwrnod o ddyddiad yr anfoneb.
- Pob contract digwyddiadau o dan £500 - angen rhagdaliad o 50%
Pob contract digwyddiadau dros £500 - angen rhagdaliad o 100%
- Bydd unrhyw gynhwysydd(cynwysyddion) a roddwyd i'r Llogwr dan y Cytundeb hwn yn parhau i fod yn eiddo i'r Cyngor. Rhaid i Logwr y biniau gymryd pob cam rhesymol fel sydd angen i sicrhau bod y cynhwysydd(cynwysyddion) wedi'u diogelu rhag difrod ac nad ydynt yn cael eu defnyddio ar gyfer llosgi unrhyw sbwriel neu ddeunyddiau o gwbl. Bydd rhaid i'r Llogwr dalu am gost cynhwysydd(cynwysyddion) newydd neu i'w trwsio ac unrhyw lapiadau hyrwyddo sydd wedi'u difrodi yn fwriadol neu drwy esgeulustod.
- Rhaid i'r Llogwr sicrhau nad yw deunydd peryglus a/neu ffrwydrod yn cael eu rhoi yn y cynhwysydd(cynwysyddion). Mae angen i'r Llogwr sicrhau nad yw gwrthrychau mawr a/neu drwm (concrid, metel, brics, rwbél ac ati) yn cael eu rhoi yn y cynhwysydd(cynwysyddion). Bydd yr Ymgeisydd yn atebol am unrhyw ddifrod i gerbydau'r Cyngor o ganlyniad i gamdefnyddio'r cynhwysydd(cynwysyddion) o'r fath.
- Rhaid i'r Llogwr ganiatáu i weithwyr neu gontractwyr CBSC gael mynediad i safle'r digwyddiad bob amser rhesymol i ganiatáu ar gyfer gwagu, nodi cyflwr y cynhwysydd(cynwysyddion), ysgrifenu neu farciau adnabod ac ati, ac at unrhyw ddiben arall sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaeth Ailgylchu a Gwastraff Digwyddiadau.
- Mae'r Cyngor yn gweithredu Polisi Cau Caead, sy'n nodi mai dim ond os yw eu caeadau wedi cau yn llwyr y bydd biniau yn cael eu casglu. Rhaid i'r holl sbwriel ffitio yn y bin(iau). Ni fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn casglu unrhyw sbwriel rhydd neu wedi'i fagio a gaiff ei adael ger cynhwysydd (cynwysyddion) neu ar y safle. Gellir prynu sachau oren o flaen llaw ar gyfer sbwriel na fydd yn ffitio yn y biniau/cynwysyddion.
- Mae CBSC yn cadw'r hawl i dynnu'r gwasanaeth yn ôl ar unrhyw amser os na chydymffurfir a'r Telerau ac Amodau.
- Rhaid gwneud pob archeb 28 diwrnod cyn y digwyddiad

DATGANIAD

Trwy lofnodi'r datganiad hwn:	Printiwch eich enw	Llofnod	Dyddiad
Rwy'n deall y bydd angen i mi dalu am unrhyw gynwysyddion ailgylchu sydd wedi'u halogi gyda gwastraff cymysg.			
Rwyf wedi darllen y telerau ac amodau uchod ac yn cytuno â hwy.			

Llenwch y ffurflen hon, ei llofnodi a'i dychwelyd ar e-bost neu drwy'r post i:

affch@conwy.gov.uk

Tîm Cyngor Cwsmeriaid AFfCh, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Blwch Post 1, Conwy, LL30 9GN

